**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**
**7:30YH 25AIN IONAWR 2023**
**CYNHALIWYD YNG NGWYTHERIN**

## 1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

**1.1** Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR) a dymunodd flwyddyn newydd dda i bawb.

**1.2** Presennol: Ann Vaughan (AV), Myrddin Davies (MGD), Diane Roberts (DR), Jane Roberts (JR), Sara Thomas (ST), Mark Davies (MD), Einir Williams (EW, Gwydion Jones (GJ) & Austin Roberts (AR)

## 2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

## 3 COFNODION I'W GWIRO 14EG RHAGFYR 2022

Cynnigwyd yn gywir gan JR ac eilwyd gan MGD.

## 4 MATERION YN CODI

AV wedi trefnu gwaith ar y garreg fedd yn y fynwent yn Gwytherin. Anfoneb yn biliau isod. Gwaith hefyd wedi ei wneud gan Kevin Roberts. Kevin Roberts wedi cael gwrthwynebiad gan aelodau o'r cyhoedd ei fod yn gwneud y gwaith.
AV wedi trefnu goriad ar gyfer y cwpwrdd yn y neuadd.
EW yn diolch i AV am drefnu'r gwaith uchod.
Gofynnodd MD os oedd goriad yr hysbysfwrdd wedi ei ddarganfod, neb wedi dod o hyd iddo eto. JR am chwilio eto. Diolchwyd hefyd i MD am baentio'r arhosfan bws.

## 5 CEISIADAU CYNLLUNIO

**5.1** 0/50385 – CR yn tybio fod y lleoliad ar y ffin efo ward Eglwysbach, AR yn cadarnhau hyn a fod y ddau gyngor cymuned yn cael eu hysbysu. Cynghorwyr yn sylwi fod ceisiadau blaenorol wedi bod yno. MGD yn codi fod y mater wedi ei basio. Dim sylwad.

**5.2** 0/50344 – Trafodaeth hefyd yn tybio fod y cais yma ar y ffin efo ward Llanfair Talhaearn. EW yn adrodd fod y gwaith yma'n orfodol. Cefnogi, dim sylwad.

**5.3** 0/50348 – DR wedi cael cais gan aelod o'r cyhoedd sydd yn byw yn ymyl y safle yn cwyno fod sŵn yno drwy'r dydd a nos a fod heddlu wedi cael eu galw oherwydd ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Aelod o'r cyhoedd wedi bod yn cadw tystiolaeth. Adroddodd fod llwybr cyhoeddus yn ymyl y safle ond ddim i lawr ar y gwaith papur, mae'n debyg fod yr arwyddion wedi diflanu hefyd. Ceir hefyd yn parcio mewn man pasio ar y ffordd.
EW hefyd wedi cael cyswllt gan y person sydd wedi gwneud y cais yn dweud nad oedd wedi sylweddoli y dylsai fod edi rhoi cais llawn i mewn yn dilyn rheolau Covid-19 ynglyn a caniatau safleoedd dros dro yn ystod y pandemig. Cais ôl-weithredol.
Eglurodd AR reolau sydd mewn lle ar gyfer y broses gynllunio ynglyn â'r mater yma.
EW yn cynnig datgan fod 2 aelod o'r cyhoedd wedi rhoi rhoi sylwadau gerbron. MGD yn cynnig cefnogi datblygiad economaidd yng nghefn gwlad ond angen sicrwydd o ran lefelau sŵn a parcio. Adroddodd AR y byddau'r adran gynllunio'n cysylltu efo adran priffyrdd ynglyn â'r sefyllfa parcio ac efo Cyfoeth Naturiol Cymru ynglyn â'r afonydd. Nododd AR hefyd fod angen bod yn wiliadwrus rhag gosod cynsail. Gofynnodd JR os yw'r cyngor sir yn dod allan i ymweld â safleoedd, soniodd AR nad oes cymaint o ymweliadau safle yn dilyn y pandemig. Pawb yn gytun i ymateb fod y cyngor yn cefnogi'r cais ond fod angen cael sicrwydd ynglyn â'r lefelau sŵn a parcio.

## 6 MATERION CYNGOR

**6.1** Trafodaeth ynglyn â'r tri pris am y biniau bagiau baw ci. EW wedi siarad efo aelod o'r cyhoedd oedd yn arfer bod yn glerc ar gyngor cymuned yn adrodd fod y biniau wedi bod yn llwyddiant yn yr ardal hono. Trafodaeth fod angen polyn hefyd i osod y bin arno. Cynnigiodd AR wneud ymholiadau efo'r Cyngor Sir os oes modd eu gosod ar bolion sydd yno'n barod neu os oes angen gosod polion newydd (ac os oes angen caniatad cynllunio). Cynghorwyr i ddod o hyd i bolion/safleoedd addas erbyn y cyfarfod nesaf. Mater i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

**6.2** Llefydd lleol i natur - AV wedi cyfarfod Julianne Quinlan swyddog ecoleg Cyngor Sir i weld beth fyddai'n addas yn Llangernyw o ran blodau, plannu gwrych, hybu bywyd gwyllt ayyb, wedi gyrru adroddiad i'r Cynghorwyr o flaen y cyfarfod. Gwaith i gyd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Crybwyll fod yn agored i Gwytherin a Pandy Tudur hefyd, EW & ST yn gytun. Gofynnodd MGD os oes coed yn cael eu plannu ac yn methu, fyddai'r cyfrifoldeb ar y Cyngor Cymuned i ariannu ail blannu. Pawb yn gefnogol ac yn hapus i fynd ymlaen efo'r cynllun ar ôl gwybod beth yw'r amodau. CR am ofalu paratoi llythyr i ddatgan diddordeb y Cyngor Cymuned ar ran Llangernyw. Cynnigiodd EW fod angen trefnu i Julianne ymweld â Gwytherin a Pandy Tudur cyn mynd ymlaen efo hwn yno.

**6.3** AV wedi mynychu cwrs cynllyn lleoliad cymunedol yn ddiweddar, MGD wedi mynychu cwrs cyllid y cyngor efo llywodraethwyr yr ysgol yn ddiweddar. EW wedi mynychu cwrs cyllid yn ddiweddar.

DR am wneud cwrs y gyfraith, EW am wneud y cwrs Cyngor fel Cyflogwr, MGD, MD, EW, GJ & ST am wneud y cwrs Côd Ymddygiad. CR am fynychu cwrs cadeirydd. EW am baratoi rhestr ar ran y Cyngor Cymuned i roi ar wefan y Cyngor.

**6.4** Swydd Clerc – 3 cais cryf wedi dod i law. Trefnu cyfweliadau wythnos nesaf efo 3 cynghorwyr - CR, EW & MGD ar y panel. EW i drefnu. Trafododd y Cyngorwyr fod angen cwestiynau addas ar gyfer y cyfweliadau, cwestiynau i'r pasio ymlaen i EW cyn ddiwedd yr wythnos.

**6.5** AV wedi paratoi adroddiad yn dilyn mynychu cwrs cynllun lleoliad cymunedol ac wedi ei yrru ar ebost i'r Cynghorwyr. Gofynnodd MGD os oedd rhywbeth tebyg yn mynd ymlaen yn Llanrwst ar hyn o bryd. Cefnogaeth allanol i ddatblygu cynllun lleol cymunedol i gynnal sesiynau. EW am ebostio Haf Jones yn y Cyngor Sir i ofyn am gefnogaeth i roi'r Cyngor Cymuned ar ben ffordd.

Adroddodd AV hefyd fod cynghorwr o Rhondda Cynon Taf oedd ar y cwrs yn codi eu bod wedi sefydlu pwyllgor grŵp diogelwch cymunedol ar gyfer ariannu arwyddion fflachio. DR yn cynnig sefydlu grŵp.

## 7 MATERION ARIANNOL

**7.1** Gohebiath gan Cyngor Conwy fod siec sydd wedi ei gyrru ers mis Tachwedd heb ei dderbyn ynglyn â'r etholiadau. JR yn cynnig fod EW yn gofyn os yw'r siec wedi cyraedd ar ôl y gyfriflen banc nesaf 5ed Chwefror, os fydd heb ei chyflwyno yna canslo'r siec wreiddiol a threfnu siec newydd.

**7.2** DR wedi paratoi dogfen gwariant, diolchwyd iddi am ei gwaith. Trafododd DR y ffigyrau fel y paratowyd.

## 8 GOHEBIAETH

**8.1** Ebost gan Non Davies yn hysbysu 3 cyfarfod lleol ynglyn â Melinau Gwynt Moelfre Bute, yn Llangernyw 27ain Chwefror 2023 yng Nghanolfan Bro Cernyw. AV yn datgan diddordeb.

**8.2** AV wedi gyrru gohebiaeth yn cynnwys lluniau gan Kevin Roberts yn dilyn gwaith diweddar.

**8.3** Ebost ynglyn a grant cymunedol ynglyn a Her y Cadeiriau. EW yn cynnig ymateb fod y mater wedi ei drafod. I'w drafod yn y Cynllyn Cymunedol Lleol.

**9 ADRODDIAD CYNGHORYDD SIR**

Brook House wedi cael tystysgrif cyfreithlondeb.

Llwybr 50 – gwaith i fod wedi cael ei wneud ar lan yr afon wythnos diwethaf ond wedi ei ohurio oherwydd yr eira, gobeithio rwan fydd y gwaith yn cael ei orffen erbyn diwedd wythnos nesaf.

Pont Pandy Tudur – gwaith ddim i lawr i gael ei wneud tan mis Mai oherwydd fod y mater ddim yn fater o frys.

Wedi gyrru gohebiaeth ynglyn ac arwyddion ffyrdd electroneg i'r Cynghorwyr i ddangos lleoliadau fyddai'r arwyddion yn cael eu gosod ond fydd y lleoliad terfynnol i'w gadarnhau gan y Cyngor Cymuned. Gofynnodd DR pam fod yr arwyddion 20mya wedi eu gosod yn eu lleoliadau presennol, cadarnhaodd AR fod yr arwyddion yma wedi eu gosod o fewn pellter penodol o'r ysgol.

Tir tu ôl i'r ysgol – wedi cysylltu efo Adran Asedau'r Cyngor Sir, gwahanol adranau ddim eisiau cyfrifoldeb cynnal a chadw. Heb gael diweddariad pellach ynglyn â hyn.

Cyfarfod ynglyn â Tŷ'r Ysgol, Gwytherin wedi ei ohurio tan wythnos nesaf oherwydd y tywydd. Bydd cynyrchiolwyr o bwyllgor y ganolfan, cynyrchiolwyr o'r Cyngor Sir a chynyrchiowyr o wahanol asiantaethau hefyd yn bresennol.

EW wedi cael 4 gwahanol berson yn cysylltu yn ddiweddar yn cwyno am gyflwr y ffordd, gofyn os y caiff yrru ebost i ERF a chopio AR i'r ebost. Gofynnodd AR am luniau o'r tyllau gwaethaf.

Gofynnodd EW os oes posibl cael arwyddion newydd i ddweud fod ffyrdd yn anaddas i HGVs, gofynnodd AR am ebost gan y Cyngor Cymuned i ofyn am hyn a byddai'n dilyn y mater i fyny.

**10 BILIAU**

**10.1** Enlli £170.81, cytunwyd i dalu.

**10.2** Kevin Roberts - gwaith brys ym mynwentydd Gwytherin, £2,544.00, cytunwyd i dalu.

**10.3** Kevin Roberts – gwaith ger safle bws Llangernyw, £288.00, cytunwyd i dalu.

**10.4** Torri goriad cwpwrdd £5.30, cytunwyd i dalu.

**10.5** Dyffryn Memorials, gwaith carreg ym mynwent Gwytherin, £330.00, cytunwyd i dalu.

**11 MATERION LLEOL**

**EW** gofyn am arwydd ger Tyn Ddol, Gwytherin ac yn ger Ffatri a Felin Isaf yn rhybuddio nad yw'r ffordd yn addas ar gyfer HGV. Pawb yn gytun, EW am ebostio AR i wneud ymholiadau.

Cydweithwraig EW yn mynd i weithio i Partneriaeth Ogwen ynglyn ac egni cymunedol, gofyn os fyddai diddordeb i drefnu cyfarfod ar gyfer yr haf. Pawb yn gytun, EW am wneud ymholiadau.

Os bydd clerc yn cael ei benodi, ceisio gorffen y cyfarfodydd o fewn dwy awr.

**DR** yn codi fod angen chwilio am yswiriant cyn mis Mai er mwyn cael prisiau eraill. I'w drafod mis nesaf.

Gofynnodd os oedd y £500 wedi ei basio ymlaen i Menter Bro Cernyw ynglyn â'r toiledau. Atgoffodd MGD am y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf.

Am ofyn wrth Peter Wood sut fod y Cyngor wedi dod i'r penderfyniad o roi tystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer Brook House.

Cofnodion 25ain Mai 2022 – drwy anwybodaeth ni gyflwynwyd y geiriau ychwanegol weler isod ar gyfer cofnodion y pwyllgor 25ain Mai 2022 (*gweler isod). Cofnodion gwreiddiol 25ain Mai 2022 heb y geiriau ychwanegol angen eu rhoi yn ôl ar y wefan.

DR wedi cael gwybod fod dim arian ar gael ar gyfer bin halen newydd i Fedwen Arian ond fod hawl defnyddio halen o finiau eraill.
**AV** twb blodau ger y Stag, Llangernyw yn llawn dŵr, gofyn os oes modd ei symud. Pawb yn gytun i symud y twb i'r fynwent ar y glaswellt, CR & MD am drefnu ei symud.
**JR** rhew ar dir yr ysgol, amhosibl cerdded ar hyd y palmentydd oherwydd rhew. Mater o ddiogelwch fod ceir yn y maes parcio. MGD yn cynnig gofyn wrth Mrs Green atgoffa rhieni am ddiogelwch.
*Geiriau ychwanegol o gofnodion 25ain Mai 2022:

"Cynllun Moelfre
Mae Polisi Llywodraeth Cymru a Chynllun Moelfre wedi eu hatchio mewn pandemig bydeang. Fyddan ni ddim yma heno oni bai I gymdogion da ddeud iddynt dderbyn Cytundeb Swn - cliw yn y teitl mi dybiaf.

Un peth ddysgodd Nhad imi -, Côd ar dy draed, Cychwyn wrth dy draed. A dyna dwi d neud.

Dysgwch am ddiwylliant a model busnes y diwydiant yma. Pwy sy'n elwa? Ar draul pwy?

**Zero net?**
NA – ond lot o zeros yn elw'r datblygwyr, elw sy'n cynyddu tra bod mwy a mwy o bobl mewn tlodi ynni.

**Ardal 1 LLyw Cymru** - asesiad desg yn osgoi Bryniau Clwyd ac Eryri. Inni **Y Berfeddwlad** ydy'r enw ar yr ardal yma ers deuddeg can mlynedd.

**Cynllun cyntaf – ai hwn fydd yr olaf ?– Dinistrio ein Berfeddwlad, efo t**yrbeini a phaneli solar? Creithio tirlun a cymunedau? Gofynnwch I bobl yr Alban a Phowys ffasiwn beth ydy hynny. **Gwrthododd y Cyngor Cymuned yma gais am un tyrbein 77m yn 2016. Mae'r rhain 3 gwaith hynny.**

**Hitio'u Targed, methu'r pwynt**

Mae Cymru yn cynhyrchu dwywaith mwy o ynni na mae'n ei defnyddio. **FFAITH.**

Breuddwyd Llywodraeth Cymru ydy darparu ynni I wledydd eraill. **FFAITH.**

Drysu, rhwng 'darparu ynni' ac 'ecsbloetio Cymru'. Ynni a pres yn llifo un ffordd. Clên dan ni de - glo, llechi, dwr a rwan ynni.

Dydy Lloegr ddim yn cynhyrchu digon o ynni, pam nad oes gan Bute 20 safle yn Lloegr ta?
Yn Lloegr rhaid cael cefnogaeth unfrydol i ddatblygiad - yma, un Gweinidog fydd yn deud os ydy effaith cynllun yn 'dderbyniol' ai peidio.

**Cyd ddigwyddiad hapus**

Mae'n debyg fod Llywodraeth Cymru – yn hapus I helpu a chefnogi.
Rhai Pleidiau gwleidyddol / aelodau senedd / rhai cynghorwyr sir / cymuned a rhai unigolion yn hapus I helpu a chefnogi

**Wel, Hen dro sal ddyda i.**

ddrwg gynnai ddifetha'r parti a hitha jesd yn Jiwbili, Dwim yn hapus I helpu.

Ond Fedrwn ni ddim cystadlu a Bute a'I band.

**Pam ponsio felly?**

Am fod y polisi a'r cynllun yn anheg ac yn wallus.

Am imi aros yn driw I'm gwerthoedd – chwara teg a llais I bawb.

Am imi barchu'r Berfeddwlad.

Am imi gofio cyngor nhad,
am imi godi ar fy nhraed,
am imi gychwyn wrth fy nhraed.
Ac yn sicr megis cychwyn ydy hyn.

**Diolch am wrando a diolch I Dwysan!**

**Cyngor Cymuned Bro Cernyw 25.5.22 – Non**

Both the Welsh Government Policy and the Moelfre Plan have been hatched in a global pandemic.
We wouldn't be here tonight but for neighbours telling us that they'd received a Noise Agreement to sign – there's a clue in the title.

One thing my Dad taught me, stand on your feet and start at your feet. That's what I've done.

Learn about the culture and business model of this industry. Who profits? At whose expense? At what cost?

**Net Zero?**
No – just lots of zeros in the profits, profits which are increasing whilst more and more people fall into energy poverty.

**Welsh Government – Area 1** – merely a desk top exercise to avoid Bryniau Clwyd and Eryri**. This area is Y Berfeddwlad** and has been for over twelve hundred years.

**First Plan, the last? –** Decimate Y Berfeddwlad with turbines and solar panels, scarring landscapes and communities? Ask the people of Scotland and Powys how that feels. This / My Community Council refused a single turbine 77m in 2016, these are 3 times the size.

**Hitting their Target, missing my point.**
Wales generates twice the energy than it uses **FACT**. WG's vision is to provide energy for other countries **FACT.** Confusing 'provider of energy' and 'exploitation of Wales' – Energy and money flowing one. Way. We're generous like that, coal, slates, water – and now energy. England doesn't produce enough energy for its needs. **why don't Bute have 20 sites there?** Because in England local support is needed for large developments, whilst here it is 1 Minister who determines whether impacts are 'acceptable' or not.

**Happy coincidence:**

Welsh Government; Some political parties; Senedd Members; – appear Happy to Help and Support

some county and community councillors, and individuals are happy to help and support

Well, Hen Dro Sâl I say – shoddy and underhand.

I don't want to spoil the party ahead of the Jubilee but I'm not happy to help.

But We can't compete with Bute and their band.  Why bother?

Because both the Policy and Plan are unfair and misguided.
Because I'm true to my principles of Fair Play and a Voice for All.
Because I cherish Y Berfeddwlad.
Because I remember my Dad's advice.
Because I stood on my feet,
Because I began at my feet
and this is indeed only the very beginning.

Thanks for listening and thanks to Dwysan.

Non Davies"

---

**"Money Makes the Wind Go Round (Wind Makes the Money Go Round)**
We live near Moelfre Uchaf with a beautiful view
Of Betws yn Rhos, Llanfair TH and Llangernyw
Alas there are plans for an industrial windsite
The scale of which gave us and neighbours a fright
Plans hidden from us in a global pandemic
No prior warning given - it made us feel sick
Welsh Government have declared us a pre-assessed area
No consultation with us which made it scarier
Members of the Senedd have partners with links
To green energy companies – it stinks!
Bute Energy alias Moelfre Energy Park Ltd
Have met with local landowners approached and invited
To have turbines on their land for a very handsome annual fee
No wonder they are rubbing their hands with glee
But what of the residents on the wind site fringes
The devastation and destruction it impinges
Years of construction digging roads to each turbine
Churning up of farmland to forever redefine
Displacement of water by concrete in the ground
Flood risk increases so alarm bells will sound
Turbine infrasound impacts on livestock's sleep
With decreased production of milk, eggs and meat.

Although green energy can be for the good
Living close to a turbine impacts on your livelihood
Plans for gigantic turbines up to 250m in height
700 metres from our home – Do you think that's allright?
Property values will decrease by at least 20%
Our tourism business unviable as no-one will rent
Bute approached us to sign a "Noise Agreement"
£3000 per year to shut up "How convenient"!
So we have their letter in black and white
Confirming wind turbines cause noise and are a blight
Our peaceful rural life will sadly come to an end
The constant humming and vibration will drive us round the bend.
Our health and emotional wellbeing affected
Infrasound, stress, sleep depravation and turbine noise expected
No studies have been done on Turbines of this size
Other countries have set a minimum 2 kilometre divide
We'll have 5 times the height of a pylon towering high
Bats and birds crashing into them as they fly
Ultimately there are things more important than money
Landowners please take heed before you seek the honey
You're collectively liable for our losses and demise
Don't be too hasty or you may get a big surprise!
Everyone should appreciate this beautiful landscape
Please reconsider our fate before it's too late.

Karen Barham"

---

"Favourite song in our tiny home is our National Anthem. Translated it says LAND OF MY FATHERS LAND OF THE FREE……turns out we are not that free to decide what goes on in our back yards! Ministers in Cardiff have drawn a line around this area and it is now designated for turbine industries.(just been reminded on the radio that 75 Yrs ago today they drew a line across India to divide the country and we all know what happened there) These are the heartlands. This countryside and all its wildlife living in it is vital for the good health and well being of everyone. Since the pandemic it has been a life saver for families seeking space ,streams and nature. Essential to us all, ready for the nxt pandemic. Now we need the owners of land to be respected as the most important people the only people that can produce the food to feed the populations around the world. Every acre is needed and is vital.
The truth about wind power is known but politicians choose to TURN AWAY! They have another master……
I am told "move with the times green energy is the future". My reply is always "Yes I am looking to the future…. The future of our human race the generations that follow us as we have followed them………and its happiness to survive".

Julia Parry"

---

German energy company RWE have proposed offering nearby residents, in my terminology, a 'compensation package' of free or cheap electricity plus a yearly payment for those

properties most adversely affected. This is on a sliding scale with the worst affected receiving a higher amount & tied to the property for the duration of the development's operation. This could also aid any future sale of the properties making them more attractive to future buyers, partially offsetting the negatives of the turbines' proximity to the properties.

Some residents might be prepared to sell & move, Bute could agree to buy these properties at current 'pre wind turbine' market prices & they'd become company assets especially as no energy company, or government, think these properties will be devalued. These could then be sold on again, maybe even at a profit. In an ideal world, & to be fair to both sides, perhaps a time limit for this offer to be taken up could be negotiated allowing the owner(s) to experience the turbines once operational to decide if they could actually live with them as none of us actually want to move. If the turbines are as easy to live with as you would have us believe then I'm sure we'd be happy to accept the 'compensation package' rather than move. If not Bute owns some lovely properties which in the whole financial scheme of the development's cost would only be a tiny percentage.

The difference of RWE's proposal compared to other energy companies' 'neighbour agreements' is that RWE still allow residents to object to their proposed development without forfeiting the agreed compensation package. Affected residents are happy if the proposal gets refused but still receive compensation if it gets approved.....rather than getting absolutely nothing & left with a hard to sell property, no direct benefits from the turbines just their picturesque landscape & tranquil existence shattered.

If this was all about saving the planet, the landowners should be happy to lease the comparitively small acreage lost for a much smaller sum of money than energy companies like yourselves pay. Landowners make a lot of money with no regard to the harm they cause their neighbours like us. Community funds don't help us residents in the remotest properties closest to the turbines but it sways many of the less affected inhabitants in the villages possibly making it seem as if the majority of the local community are in favour.

My opening example/suggestions would go a long way to evening out the disparity involved.

Have Bute secured a grid connection, is there local grid capacity available, or is that subject to other wind farms being approved in the area to jointly fund an expensive new powerline? Will the proposed connection be in Butes' Pre App/Scoping details &/or the full application if/when submitted & will this be overland pylons or underground & finally which route from the substation will this have to take please?

One last thing, it says a lot about an industry when a developer needs an expensive PR consultancy company to sugar coat their unsavoury proposals.

Clive Goodridge”

---

“Rwyf yn annog chi i ddarllen gwaith ymchwil Professor Maria Alves Pereira
ac effaith andwyol ar iechyd sydd iw gael parthed y trubeini gwynt, Pobl sydd yn buddsoddi, boed yn lleol neu cenedlaethol mewn trubeini gwynt,yn dweud fod pres yn eu poced hwy yn bwysicach na iechyd eu cymdogion.

Darllenwch waith Professor Pereira.

Seth Jones"

**12 CYFARFOD NESAF**

22ain Chwefror 2023 ym Mhandy Tudur
Cyfarfod yn dod i ben 9:45pm
Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan